# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 43. RHIF 12 MAI 2022 50c


# APÊL WCRAIN

**Yn y pwyllgor blaenoriaid ym Methel nos Lun, Mawrth 7fed, penderfynwyd y dylem wneud rhywbeth tuag at yr Apêl dros yr argyfwng yn Wcrain. Felly agorwyd y Capel fore Sadwrn, Mawrth 19eg o 9.30 tan 12.00 er mwyn casglu nwyddau i'r Apêl. Oherwydd haelioni pawb casglwyd llond byrddau o ddillad, tyweli, blancedi, teganau a nwyddau personol. Cludwyd y cyfan mewn ddau gar y bore Llun canlynol. Cawsom gyfarwyddyd gan y Ganolfan Bwyleg leol, sef Polskie Merseyside, i gymeryd popeth i warws anferth yn Huyton. Gwelsom yno ymateb anferthol pobl Lerpwl i'r argyfwng. Roedd y Pwyliaid yno yn llenwi loriau i gludo'r nwyddau i'r ffin rhwng Gwlad Pwyl a'r Wcrain, taith oedd yn gymeryd dau diwrnod o Lerpwl. Mae'n braf meddwl ein bod yn gallu bod o fudd i gymunedau y tu hwnt i'n cylch cyfyng ni.**




*Lori fawr oedd yn cludo y nwyddau*



*Meirion gyda gyrrwr y lori*



*Cefn y car yn llawn*



*Ymateb haelionus pobl Lerpwl i'r Apêl*



*Byrddau llawn dillad a nwyddau eraill*

Golygyddol

# GARDD GETHSEMANE

## – gan D. Ben Rees

**Bûm ugain o weithiau yng Ngardd Gethsemane yn Jeriwsalem, yn arwain pererinion a'm teulu fy hun i'r ardd sydd yn allweddol bwysig yn wythnos fawr gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu. Ni fethodd y pererinion o bob rhan o Gymru, o Fanceinion a Glannau Merswy a chanu bob tro emyn y Methodist Calfinaidd o Dalyllychau, Thomas Lewis (1760-1842), blaenor ac arloesydd yr achos yn y fro. Gof gwlad na welodd erioed mo'r ardd ar waelod Mynydd yr Olewydd, ond am ei fod ef yn olau yn yr Ysgrythyrau cipiodd yr awyrgylch yn berffaith**

*Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,*
*a'i chwŷs fel defnynnau o waed,*
*aredig ar gefn oedd mor hardd,*
*a'i daro â chleddyf ei Dad,*
*a'i arwain i Galfari fryn,*
*a'i hoelio ar groesbren o'i fodd;*
*pa dafod all dewi am hyn?*
*Pa galon mor galed na thodd?*

Nid oes raid i Thomas Lewis ofni o gwbl. Bu'r tafodau o Gymry yn canu o flaen yr adeiladau gyda theimlad bob amser, a gwelais fwy nag unwaith aml i ddeigryn hefyd ar ruddiau y pererinion o Ddyffryn Aman a Dyffryn Tywi ac aml i le arall a fu ar daith odidog yn ôl traed Iesu.

Nid yw'r un o'r efengylau'n enwi'r fangre, ond mae Ioan yn sôn fod y disgyblion wedi dod i'r ardd ar ôl croesi afon Cedron. Yn yr ardd hon wedi'r cyfan y cyfarfu Iesu â Jwdas, y Jwdas a bortreadir gan y bardd Gwenallt, a bu ef un blwyddyn yn yr Ardd ei hun, a lluniodd lu o gerddi o'r daith honno. Dyma un cerdd:

*Rhaid oedd i'r cwmni gwirion wrth dy fedr*
*I gadw'r cyfrif ac i gasglu'r pres,*
*Ni hidia Ioan ac ni faliai Pedr,*
*Rhaid oedd wrth aur i ddod â Duw yn nes:*
*Yr elusennau aml a odrai'r gist,*
*A'r Pasg a'i gwagiodd, gyda'i win a'i fwyd,*
*Ac ar y farchnad gwerthaist ti dy Grist*
*Gan wybod y dôi'm rhydd o'u magl a'u rhwyd.*
*Gresyn dy grogi cyn codi Mab y Dyn*
*A rhannu eilwaith win a bara croyw,*
*Y Groes yn codi'r brad oddi ar dy fin*
*A golchi d'arian brwnt yn berffaith loyw;*
*Gallaset fel Pedr wylo'n chwerw dost*
*A gweld y gist yn llawn ar Bentecost.*



*Gardd Gethsemane*

Lluniodd Gwenallt soned wefreiddiol gan ddarlunio Jwdas fel Trysorydd y cwmni dethol o un-ar-ddeg a'r Iesu. Ni allent fyw heb arian. Cyfeiria'r soned iddo wario mwy nag arfer y Pasg hwnnw gan bu'n rhaid prynu bara a photel o win ar gyfer y Swper Olaf yn yr Oruwchystafell. Roedd rhaid talu am lety i rai o'r disgyblion. Fel pob Trysorydd da daliai ofal gofalus am yr arian

*'A'r Pasg a'i gwagiodd, gyda'i win a'i fwyd'.*

Nid bara a gwin yn unig ond cafwyd aml i bryd o fwyd y diwrnodau hynny. Gwelodd Jwdas ei gyfle i wneud ychydig o arian hawdd trwy siarad â'r awdurdodau a chynnig bod yn Fradwr dros dro. Roedd ef yn gwybod y *'doi'n rhydd o'r magl a'u rhwyd'* trwy ymddiheuro a dweud fod yn flin ganddo am ei drachwant. A chytunaf â'r bardd iddo fynd i ormod o banig a chrogi ei hun cyn clywed y ddedfryd o eiddo'r Iesu arno. A phe bae wedi byw efallai y byddai yntau wedi gweld 'y gist yn llawn ar Bentecost'.

Ai Bradychwr oedd Jwdas? Y Disgybl, y Trysorydd a werthodd ei ffrind gorau gyda chusan. Nid trwy ysgwyd llaw ond cusan o bob ffordd i ddal Iesu'n gaeth er mwyn ei hebrwng i Lys yr Archoffeiriad. Y mae cryn wahaniaeth rhwng adroddiadau Marc, Matthew, Luc a Ioan. Nid yw Ioan (Ioan 18: 1-11) yn rhoddi cyfeiriad o gwbl at weddi Iesu am i Gwpan y Gofid gael ei gymryd oddi wrtho, ond eto, os oedd rhaid ei yfed, ni wrthodai'r Gwas Dioddefus. Nid Jwdas chwaith, yn ôl Ioan, yn ymddwyn fel bradwr. Y mae'n sefyll yn ei unfan fel un oedd mewn gofid dwys. Y mae Iesu yn rhoddi ei hunain i'r heddlu a'r awdurdodau heb brotest yn y byd. Nid rhyfedd i heddlu'r Deml synnu at ei ddewrder. Y mae'r olygfa yn gryn wahanol i adroddiad Marc (Marc 14: 32) ond yn cyd-fynd â diwinyddiaeth Ioan am y logos 'a'r Gair a ddaeth yn gnawd, a ni a welsom ei Ogoniant Ef'. A gwelir ei ogoniant godidog, eneiniedig yng Ngardd Gethsemane fel ag yn ei ing a'i angau ar y Groes.


Cysylltwch â'r

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'


garthdriveben@gmail.com

**Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi**

# Gŵyl i Gofio

## Emyr Wyn Jones a'i briod Enid Wyn Jones

**BU'N RHAID GOHIRIO HYD MIS MEDI**



**Gweithiodd Dr Emyr Wyn Jones (1907-99) yn ysbytai Lerpwl ar hyd ei oes. Cardiolegydd enwog. Ei briod Enid Wyn Jones yn adnabyddus am ei gofal Cymdeithasol am yr anghenus.**

**Estynnwyd wahoddiad i fab Dr Emyr a Mrs Enid Wyn Jones, yr Athro Gareth Wyn Jones, Bangor i ddarlithio, ac os yn bosibl, yr ŵyr yr Athro Richard Wyn Jones, Caerdydd.**

**Cynhelir CYNGERDD ar Nos Sadwrn ym Medi**
**yn Eglwys Fethodistaidd Elm Hall Drive.**
**Arweinydd: Parch. Robert Parry.**
**Doniau lleol o blith Cymry Lerpwl.**
**Llywydd: Dr. John G. Williams**

**Bore Sul ym Medi – OEDFA I GOFIO'R DDAU**
**ym Methel, Heathfield Road am 10.30 o'r gloch.**

*Cofiwch edrych am y manylion*

## CYMDEITHAS LENYDDOL BETHEL A DOSBARTHIADAU Y DYSGWYR

**DWY DDARLITH AR ZOOM**

**Nos Lun, 11 Ebrill**

***DARLITH AR DDAU PROTESTANT YN LERPWL***

(George Wise a H. D. Longbottom)
I ddechrau am 7.30 o'r gloch.
I draddodi'r ddarlith: Parch. Ddr. D. Ben Rees.
I lywydd: Parch. Robert Parry.

***Nos Lun, 16 Mai***

***DARLITH AR Y PENLLIFIWR - DAVID DAVIES (1818-90)***

y contractiwr rheilffyrdd a perchennog glöfeydd yn y Rhondda a'r dyngarwr, miliwnydd a osododd enw Llandinam ar fap Prydain. Fe'i llysenwid yn "Top Sawyer" – y Penllifiwr. Ef yw testun y ddarlith ar zoom gan yr Athro D. Ben Rees a'r Cadeirydd fydd y Parchg. Robert Parry


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Y Gymdeithas a'r Capel ym Manceinion

O'r diwedd, mae bywyd y capel a'r Gymdeithas ym Manceinion wedi ail-ddechrau a phawb wrth eu bodd i gyfarfod bob Sul a bob mis gyda'r Gymdeithas. Wel, o fis Hydref hyd mis Mawrth mae Cymdeithas y Cymry yn cyfarfod fel arfer a dyna beth a ddigwyddodd mwy neu lai ers mis Medi pan ddechreuodd o'r newydd ein hoedfaon yn y capeli. Erbyn hyn rydym yn diolch yn fawr i weinidogion a phregethwyr o Gymru ac o Lerpwl am ddod atom i wasanaethu. Ar y Sul cyntaf ym mis Mawrth pan ddathlwyd Dydd Gweddi'r Byd cawsom wledd o oedfa a dyma'r adroddiad gyda lluniau.

DYDD GWEDDI'R BYD – Ar Fawrth 3ydd cawsom wasanaeth arbennig iawn wedi'i baratoi yn ofalus gan aelodau'r capeli yn ogystal â'r gweinidog gwadd.



***Y Bwrdd gyda'r addurniadau a sain Wcrain***

Yn lle cynnal y gwasanaeth ar y Dydd Gwener arferol ddechrau mis Mawrth, ein harferiad yn awr ym Manceinion yw cynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd ar y Sul er mwyn rhoi cyfle i'r dynion gymryd rhan gyda'r merched a gwerthfawrogi'r oedfa ddiddorol sy'n dod o waith chwiorydd mewn gwahanol wledydd y byd. Roedd y daflen eleni wedi cael ei pharatoi gan ferched Prydain Fawr (oddi eithr yr Alban) ac roedd yn bwrpasol iawn gyda'r thema yn taro deuddeg oherwydd Covid 19 a'r sefyllfa bresennol yn Wcráin.

Roedd Iestyn ac Eirian Roberts wedi gweithio yn galed i sicrhau bod y capel yn gynnes a chroesawus. Yn y sêt fawr roedd addurniadau yn gysylltiedig â'r geiriau yn y testun – gan adlewyrchu prydferthwch ein gwlad a'r heriau sydd yn ein wynebu. Y testun oedd neges Dduw trwy y proffwyd Jeremeia ym mhennod 29:10 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' medd yr Arglwydd 'bwriadau o heddwch, nid niwed i roi i chwi ddyfodol gobeithiol...'

Ym myfyrdod y gweinidog-gwadd, y Parchedig Nesta Davies, oedd wedi dod atom yr holl ffordd o Abergele, gwelsom gyd-testun pobl Israel ar yr amser pan ddywedodd Jeremeia y geiriau hyn. Roedd ei neges yn hynod o amserol i'n sefyllfa heddiw gydag ymosodiad Rwsia ar Wcráin ac roedd hi yn ein harwain i fyfyrio ar ein bywydau ni ein hunain a'r angen am amynedd. Orig fendithiol iawn a diolchwn i Dduw am y gwasanaeth cofiadwy hwn.

Roedd Eirian gyda merched eraill wedi gweu matiau bach gweddi lliwgar a chafodd pawb un yn ogystal â bag bach o hadau sydd yn symbol o obaith gan fod hadau yn tyfu i roi cynhaeaf ar yr amser priodol. Ein gweddi oedd i dangnefedd dyfu yn fuan yn ein byd unwaith eto.

Ar y Dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth cafwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd mewn llawer o lefydd ar draws y byd. Cefais i hyd i wefan chwiorydd Canada, fel y llynedd, ac ymunais gyda llawenydd yn eu dathliad. Roedd rhai rhannau mewn Ffrangeg a'r merched yn dod o dras gwahanol iawn i'w gilydd: un wedi hanu o'r India dwy o'r Caribi, eraill o wledydd Ewrop a phawb ohonynt yn ddinasyddion yn Canada. Bendigedig.

Mae Covid 19 yn dal i effeithio ar fywydau pobl ac yn ddiweddar ein horganydd ymwybodol Iwan sydd wedi ei gaethiwo. Diolchwn i Trefor Davies am ddod i'r adwy mor barod a chyfoethogi ein haddoliad gyda'i gyfraniad. Hefyd cofiwn am yr aelodau sydd yn methu mynychu y gwasanaethau ar hyn o bryd oherwydd gwaeledd, a'u gofalwyr, sydd yn cofio amdanom. Bendith Duw a dymuniadau gorau i bawb o ddarllenwyr *Yr Angor* oddi wrthym ni ym Manceinion.



***Parch Nesta Davies gyda phawb a gymerodd rhan. Yn y pulpud; Eirian Roberts a Brenda Pritchard. O'r chwith Iestyn Roberts, Glenys Davies, Marian Roberts, Eleri Edwards, Mair Swift, ac Alun Roberts, Trefor Davies a Dr Bill Roberts***

***(Llun: Hafwen Davies)***

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

*Annwyl gyfeillion*. Mae'n bleser cael eich cyfarch ar fore heulog braf.

Gobeithio eich bod i gyd yn mwynhau'r tywydd gwell ac yn manteisio ar y cyfle i fynd allan.

Fel eglwys, cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Trefor ac Eirina Roberts a'r holl deulu hoffus yma ar farwolaeth Mrs Megan Vaughan, chwaer Trefor, ar dydd Llun 21ain o Fawrth ar ôl gwaeledd hir

Mae Trefor wedi bod yn yr ysbyty hefyd ond gartref erbyn hyn.

Mae'r Pasg yn hwyr eleni ond gallwn ddarparu amdano wrth feddwl am y llinell "Ebrill a'i awel fwyn" sydd yn dod i'm meddwl yn gyson. Mae'n ddarn o adroddiad a ddysgais yn fy arddegau cynnar ar ddechreu'r Ail Ryfel Byd, (1939-45). Barddoniaeth gan Cynan. Dyma oedd y prif adroddiad mewn eisteddfod leol, ac er nad oeddwn yn cystadlu dysgais yr adroddiad gan fy mod yn ei hoffi yn fawr.

Roedd ar fy meddwl mor aml fe ofynais i'm dwy ferch wneud ymchwil a dyma'r canlyniad,

Y stori tu ôl i'r gan mai cyfieithiad gan Cynan o gan Saesneg, *"All on an April's evening"* a ysgrifenwyd gan Katherine Tynan (1859 - 1931). Gwyddeles ydoedd wedi ei geni ar fferm, fe briododd a dod i fyw i Lloegr. Roedd yn dorieithog a gadawodd lawer iawn o ysgrifau.

Fe astudiodd Cynan ei gwaith a throi'r gân yn ddarn adrodd hyfryd a hefyd trist iawn.

*Hwyrddydd o Ebrill ydoedd,*
*Ebrill a'i awel fwyn;*
*Ac ar y ffordd y defaid*
*Ai heibio gyda'u hwyn.*

*Y defaid a'u hwŷn âi heibio*
*I fyny am Fwlch y Llyw.*
*Hwyrddydd o Ebrill ydoedd:*
*Meddyliais am Oen Duw.*

*Blin oedd yr ŵyn a chŵynent*
*Yn llesg a dynol eu cri.*
*Am Oen Duw y meddyliais*
*Yn myned i Galfari.*

*Fry yn y glas fynyddoedd*
*Mae'r borfa bereiddiaf a gaed:*
*Gorffwys i'r cyrff bach eiddil,*
*Gorffwys i'r egwan draed.*

*Ond Oen Duw ni chafodd*
*Fry yn y bryndir glas*
*Ddim ond y groes felltigaid*
*Rhwng croesau troseddwyr cas.*

*Hwyrddydd o Ebrill ydoedd*
*Ar y Ffordd i Fwlch y Llyw*
*Y defaid a'u hwyn âi heibio:*
*A chofiais am Oen Duw.*

Ar Sul y Palmwydd cofiwn am yr Iesu yn myned i Jerwsalem ar gefn asyn a'r dyrfa fawr yn ei groesawu yn orfoleddus gan roddi brigau palmwydd ar y ffordd.

Wrth ddod yn nes at y Pasg cofiwn am y bradychu a'r croeshoelio, yna ar y Sul, Sul y Pasg hanes dydd atgyfodiad Crist.

*Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist,*
*Gan ddryllio pyrth y bedd,*
*O cyfod, fenaid, na fydd drist,*
*I edrych ar ei wedd.*

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cyflawnodd ein cyn-weinidog y Parchg. Ddr. D. Ben Rees gymwynas â ni yr ail Sul, Mawtth wrth weinyddu y Cymun yn absenoldeb ein Gweinidog, y Parchedig Robert Parry oedd yn cael cyfle i dreulio penwythnos gyda'i fam yn Llundain a hithau yn bur wael. Cyfeiriodd Dr Rees atynt yn ei weddi a bonws i ni oedd cael cwmni Mrs Meinwen Rees gydag ef. Mae Meinwen wedi bod yn gefnogol iawn i gapel Bethania a phleser oedd cael ei chyfraniad am gyfnod fel cyfeilydd yn oedfaon y Gweinidog. Croesawyd y ddau gan Mrs Elin Boyd a chyfeiriodd at golled Christ Church gan fod un o wardeiniaid Eglwys y Crist wedi marw y diwrnod cynt, Derek, a fu mor groesawus ohonom fel y 'praidd bychain'. Beth felly yw ein braint ni yn Bethania y dyddiau hyn? Ai tynnu'r llenni i lawr, na wfft i'r fath syniad. Mae gennym ffydd a ffrindiau, cynulleidfa a cherddoriaeth, Gweinidog ac Efengyl. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear". Gadawn i feddwl Crist hydreiddio ein holl gyfarfodydd. Y gynulleidfa wedi'r cyfan yw cyfrwng neges Teyrnas Dduw i'n dyddiau.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu'n rhaid ail-drefnu ar gyfer Sul 28 Mawrth gan fod Cofid-19 wedi ein taro ni fel cynulleidfa a chyflwynodd y Dr. D. Ben Ress ei genadwri gyfoes ar *zoom*. Anfonwyd ein cofion am wellhad buan o'r aflwydd i Mrs Rhiannon Liddell, Mrs Kathy Norton, Mrs Mair Roberts, Mrs Eirlys Evans, Mrs Lilian Coulthard, Mrs Elan Jones, Mimosa a'i merch Sonia, i R. Ifor Griffith a Dr Colin McEian. Bydd yn ofynnol cadw golwg ar y sefyllfa yr wythnosau nesaf ond diolchwn am y ddarpariaeth bob nos Lun ar *zoom*. Y Parch. Eleri Edwards a roddodd arweiniad i'r Seiat ar thema Gwanwyn Duw a bu'r Gweinidog yn arwain ar y Grawys yn niwedd mis Mawrth. Gwyddom am ei ofid ef a'r teulu dros ei fam sydd yn bur wan ond yn derbyn gofal ei merch yn ei chaethiwed. Disgwyliwn weld lluniau yn y rhifyn hwn o'r ymdrech arbennig a wnaed i gynorthwyo ffoaduriaid o Wcrain sydd wedi croesi'r ffin i wlad Pwyl. Gofalodd W. Meirion Evans a Dr. John G. Williams a chludo dau gar yn llawn o angenrheidiau i warws mawr a leolid yn Huyton. Diolchwn i bawb a fu yn rhan o'r caredigrwydd mawr hyn i bobl sydd heb ddim. Pobl y bu'n rhaid iddynt ffoi rhag bomiau Rwsia, sydd wedi creu cymaint o ddinistr, yng ngwlad Wcrain. Mae'n amlwg fod pobl ym mhob rhan o Brydain wedi ymateb yn llawn haelioni, a derbynnir rhoddion ariannol trwy ein Trysorydd i'r elusennau fel Cymorth Cristnogol sydd yn rhoddi help llaw.

---

Mae y wawr wen olau wedi gwawrio ar y gorwel, a diolchwn am hynny. Dyma gymal o Salm 139: "Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr, yno hefyd fydd dy law yn ein harwain, a'th ddeheulaw yn fy nghynnal." Dyna oedd ein profiad yn ystod y pandemic, Cawsom gyfnod anodd a dieithr, ond diolchwn am gael ymaflyd yn 'Ei Law'.

Diolchwn i Dr. Pat Williams a Dr. John Williams am ddefnyddio y dechnoleg fodern i'n galluyogi i gael gwasanaeth ar fore Sul ar *zoom*, hefyd seiat a chyfarfod gweddi. Diolchwn i'n gweinidogion y Parch Robert Parry a Dr. D. Ben Rees am ein cynnal yn ysbrydol, ac i Meirion Evans ac Idris Roberts am ofalu am yr adeiladau.

Bu farw Mrs Menna Owen, 17 Reynold's Court, cydymdeimlwn â Gwenan a Gareth a'r wyrion i gyd yn eu colled enfawr.

Bu farw Pennant Roberts, brawd Mrs Elan Jones ym Mhatagonia, cydymdeimlwn â hithau a'r teulu oll.

Bu Mrs Nerys Jones yn yr ysbyty am gyfnod, wedi cael dod adref erbyn hyn ac yn dal i wella. Anfonwn ein cofion annwyl fel eglwys at yr holl aelodau hynny sydd yn methu dod atom i gyd-addoli, ac yn arbennig y naw o'n plith a gafodd y Cofid-19. Bu'n rhaid symud yn ôl i *zoom* ar Sul olaf mis Mawrth.

## Dathlu Dydd ein Nawddsant yn Lerpwl

***gan Nan Hughes Parry***

Cawsom noson i'w chofio, a hynny eleni ar ddydd Mawrth Ynyd. Bu myfyrdod ar *zoom* am unarddeg y bore ar gyfer yr Ofalaeth, ac yna Nos Fawrth am 7.30 Cymdeithas Lenyddol Bethel a Chymdeithas Cymry Lerpwl yn uno.

Yn y rhan gyntaf o'r noson cawsom ddatganiad gan Mrs Margaret Anwyl Williams, yno cyd-ganu emyn wladgarol "Dros Gymru'n gwlad". Yna Dr. Pat Williams yn adrodd hanes Dewi Sant gan roi disgrifiad o'r cyfnod canoloesiedd. Yna Mrs Beryl Williams yn adrodd tarddiad Dydd Mawrth Ynyd.

Symud draw wedyn i'r festri a'r byrddau wedi eu hulio'n barod ac ogla crempogau yn dod o'r gegin. Mae'n diolch yn fawr i Dr. Pat, Beryl a Carys am yr holl drefniadau. Dyma gwpled o bregeth olaf Dewi Sant – *"Frodyr a chwiorydd, byddwch lawen, cedwch y ffydd, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i"*. Mae'n neges amserol i ni heddiw.

Nos Lun, Mawrth 14eg cawsom ddarlith arbennig iawn ar *zoom* gan y Parch. Ddr. R. Alun Evans, Caerdydd yn adrodd hanes dyfodiad y radio Gymraeg a'r gwahaniaeth mawr a wnaeth hynny i gartrefi Cymru; yn arbennig pan benodwyd Sam Jones yn gyfarwyddwr rhaglenni ym Mangor yn 1935. Mae'r gwasanaeth radio Cymraeg o 5.30 y bore hyd hanner nos erbyn hyn, ond yn y blynyddoedd cynnar o 5 o'r gloch i 6.30, 7.30 i 8 a 9 i 10. Dim arall a'r cwbl yn Saesneg ar wahan i ganu Dafydd y Garreg Wen. Y mae y ddarlith odidig hon ar *You Tube* i'r rhai ohonoch na chafodd y cyfle i edrych arni, a diolchwn i'r Dr. D. Ben Rees am lywyddu'r noson ac am wneud yr holl drefniadau fel bod Darlith Dewi Sant yn dod yn ddigwyddiad blynyddol mi dybiaf.


**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**garthdriveben@gmail.com**

# Cymdeithas Cymry Lerpwl


Braf iawn oedd cael cyfarfod unwaith eto wedi cyfnod o bron i ddwy flynedd fynd heibio. A pha well noson i ail gychwyn na chael dathlu Gŵyl Ddewi a Dydd Mawrth Ynyd ar Fawrth y 1af.

Llywydd y noson oedd Dr John Williams ac yn y rhan gyntaf bu i ni gael hanesion am Ddewi Sant gan Dr Pat Williams a Mrs Nan Hughes Parry. Yn ystod y cyfnod clo bu Pat yn gweithio yn ddiwyd iawn, yn addasu a thanysgrifio chwedlau am Ddewi Sant sydd wedi eu hysgrifennu mewn Cymraeg Canol i iaith lafar heddiw. Roedd y chwedlau gwreiddiol wedi eu hysgrifennu yn yr iaith Ladin. Edrychwn ymlaen i gyfrol Dr. Pat Williams.

Rhoddodd Pat gefndir y straeon i ni, ac yna Nan yn darllen pytiau o'r chwedlau. Mae'r chwedlau yn gwneud storïau da gyda themâu anghredadwy, gwahanol iawn i'r hanesion yr ydym wedi arfer glywed am Ddewi Sant. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael gweld y chwedlau mewn print ac i'w prynu a'u mwynhau. Yna arweiniodd Margaret Annwyl ni i ganu dwy emyn a dwy gan sydd a chysylltiadau a Chymru a Gŵyl Ddewi, yn cynnwys 'Cofio'n Gwlad' ac 'Ar Hyd y Nos'.

Rhoddodd Beryl Williams gefndir arferion a hanes dydd Mawrth Ynyd neu y Mardi Gras (dydd Mawrth tew). fel maen cael ei alw mewn gwledydd Pabyddol. Arferai pobl fwyta yr olaf o'r blawd, menyn a saim ar Ddydd Mawrth Crempog cyn dechrau ar gyfnod y Grawys y diwrnod dilynol. Atgoffodd ni hefyd o'r hen bennill 'Os gwelwch chi'n dda ga'i grempog?' ffefryn gyda llawer ohonom yn blant.

I orffen y noson bu i ni gael gwledd o grempogau, wedi eu paratoi gan Pat gyda chymorth Beryl a ffrwythau, bara brith a chacennau cri i ddilyn.




*Cyfrol newydd gan Dr. Pat Williams*



*Y cogyddion yn brysur*



*Eryl yn mwynhau ei grempog*



*Gwledda ar Noson Gŵyl Ddewi*

Nos Lun Mawrth 14eg bu i ni ymuno gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel a Dosbarth Cymraeg y Dysgwyr i wrando ar y ddarlith Gŵyl Ddewi. Testun y Ddarlith oedd Canrif o Hanes y BBC yng Nghymru yn cael ei thraddodi gan y Parch. Ddr R. Alun Evans. Caerdydd, Llywydd y noson oedd Parch Ddr D. Ben Rees.

Bu i ni gael darlith ardderchog a phawb yn canmol. Aed â ni yn ôl i'r dechreuad yn 1922, o ddyddiau y radio neu y wireless fel y byddem yn arfer ei galw, hyd at ein dyddiau ni heddiw. Noson wych a diolch am gael ymuno gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel.

Nos Fawrth 15ed roedd tri tîm yn brwydro yn galed mewn cwis dan ofal

Devida Broadbent, un dda am gwis ydi Devida. Llywydd y noson oedd Eirlys Evans.

Bu cryn grafu pen a darganfod cyn lleied oeddem ni'n wybod ond daeth un tîm i'r brig, dipyn o flaen y gweddill ohonom, sef tîm Carys, Enid P., Eirlys a David John. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar.



*Devida y Cwis Feistres*



*Enillwyr y Cwis – Tîm Carys*

Nos Fawrth yr 29ain bu i ni gael noson arall ardderchog gyda'r Parch Ddr D. Ben Rees yn traddodi darlith ar y testun 'Darlith Bwysicaf yr 20ed Ganrif – Tynged yr Iaith' gan Saunders Lewis. Llywydd y noson oedd Dr John Williams ac ef osododd y testun i Dr Rees.

Byddai'n arferiad gan y BBC ddarlledu darlith flynyddol a gofynnwyd i Saundres Lewis draddodi yn 1962 ychydig dros 60 mlynedd yn ôl. Darlith oedd hon dipyn yn wahanol i'r rhai a'i rhagflaenodd yn fwy politicaidd ei naws.

Yn y ddarlith bu i Mr Rees sôn am gefndir Saunders Lewis yng Nghilgwri ac maen anodd credu nad oedd yr iaith Gymraeg yn bwysig iddo yn ei ddyddiau cynnar. Wedi dechrau gweithio fel darlithydd ym mhrifysgol Abertawe bu iddo ail gydio yn yr iaith Gymraeg.

Maen amlwg ei fod Saunders Lewis yn poeni am sefyllfa yr iaith Gymraeg, poeni am yr ymfudwyr yn symud fewn a ddim yn dysgu'r iaith a'i defnyddio i waith bob dydd. Teimlai mai ni fel Cymry ddylai amddiffyn yr iaith, a bod yr iaith i'w defnyddio bob dydd o'r wythnos ac nid yn unig ar y Sul. Gwelai ddirywiad yn yr iaith yn y cymunedau Cymraeg ac na allai Cymru fforddio colli mwy o gymunedau fel Tryweryn, lle uniaith Gymraeg.

Soniodd hefyd am Eileen a Trefor Beasley yn ymdrechu am 8 mlynedd i gael papurau treth yn yr iaith Gymraeg, a dymuniad Saunders Lewis oedd gweld ffurflenni llywodraeth a busnesau yn y Gymraeg. I Saunders Lewis roedd sefyllfa yr iaith Gymraeg yn bwysicach na hunan lywodraeth.

Yn dilyn y ddarlith 'Tynged yr Iaith' daeth y mudiad Cymdeithas yr Iaith i fodolaeth mewn enw yn 1962, ac yna fel mudiad yn 1963, mudiad di drais yn hyrwyddo yr iaith Gymraeg.

Roedd hon yn ddarlith arbennig iawn gan y Parch Ddr D. Ben Rees, ac maen anodd credu fod yr un problemau yn ein gwynebu heddiw, 60 mlynedd yn ddiweddarach.

***(Gair gan y Golygydd: Diolch o galon i un o ohebwyr newydd y Gymdeithas, sef Mrs Mair Roberts, yn ei adroddiad cyntaf i'r Angor ac edrychwn ymlaen am adroddiadau Kathy Norton ac Eryl Dooling i'r dyfodol. Y tair yng ngofal y golofn. Mae wedi dechrau yn gampus. Hoffwn ddiolch am adroddiadau a gafwyd am gyfnod hir gan Beryl Williams. Y mae arnom ddyled fawr iddi am ei gwaith cyson, dibynadwy, a dymunwn yn dda iddi hi fel Ysgrifennydd y Gymdeithas ac i'w phriod Dr. John G. Williams am ei benodi yn Llywydd. Dilyna'r ddau gwpwl arall a fu mor arbennig, Norma a Roderick Owen. Syniad da cael yr olynwyr yn yr un traddodiad – Diolch a Diolch).***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mehefin 2022** – erbyn bore Llun, 2 Mai, 2022 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd y diwrnod hwnnw.
- **Rhifyn Gorffennaf 2022 –** erbyn bore Mercher, 1 Mehefin 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Rhifyn Awst/Medi 2022** erbyn bore Gwener, 1 Gorffennaf 2022 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cyfarfod Blynyddol pnawn Llun, 11 Gorffennaf am 1.30 o'r gloch yn y Ganolfan, Penny Lane**
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/5/2022.**

# DWAD ADRE

Newydd ddarllen yn *'Y Rhwyd'* papur lleol Gogledd Môn o dan Rhydwyn 'Croeso Adref' i mi. Wel. Diolch amdano ac anodd credu ei fod wedi digwydd wedi alltudiaeth o saith deg o flynyddoedd. Fel y dywedwyd deuthum i'r ardal yn blentyn o ifaciwi o Lundain gyda Nellie fy chwaer. Cawsom fagwraeth arbennig a chariadus gyda Anti Lizzy yn 2 Chapel Street, Rhydwyn ond yn bymtheg oed mynais ddychwelyd i Lundain lle y credwn a breuddwydiwn yr oeddwn i fod. Arhosodd Nellie yn y pentref a chodi teulu a'r tri yn Gymry Cymraeg.

Buan iawn y dyhunais o'r freuddwyd a sylweddoli nad oeddwn yn gocni bellach a hiraethwn am ddychwelyd i Fôn. Yn ddiarwybod mi roeddwn wedi drachtio i mewn Gymreigtod, yr iaith a'r ffordd unigryw o fyw.

Aeth bywyd ymlaen heb fawr o gynllun gennyf ond y dyhead i ddychwelyd i Gymru a Môn pan deuai cyfle. I'r diben hwn ymunais â Heddlu Gwynedd ac er na chefais ddod i Fôn roeddwn yn fodlon fy myd. I goroni'r holl cyfarfum a phriodi Marian o ochrau



Mynydd Twr, Caergybi a sefydlu cartref ac aelwyd Gymraeg.

Nid ydyw bywyd byth yn berffaith. Daeth fy llwyddiant yn yr heddlu yn ofynol i mi symud i borfeydd mwy breision yn broffesiynol ac i ffwrdd â ni i Lerpwl. Nid oeddym yn bwriadu aros ond yno y buom am hanner can mlynedd. Cofiwch roedd bywyd Cymry Lerpwl yn gynnes, byrlymus a llawn o weithgareddau y daethom yn rhan ohonno.

Wedi pum mlynedd ar hugain yn Heddlu Glannau Merswy ymddeolais gan obeithio cael symud yn ôl i'n cynefin ond nid felly oedd dymuniad Marian. Drwy'r cyfnod roeddym yn ymweld yn gyson â'r teulu ym Môn a chadw'r cysylltiadau.

Wedi chwe deg mlynedd o briodas eithriadol o hapus dirywiodd iechyd Marian a gofynnais pan ddaethai'r alwad lle'r oedd eisiau ei chladdu. Cytunom mai Rhydwyn oedd y lle a gwnaeth Nellie y trefniadau iddi hi a ninnau gael bedd wrth ochrau'n gilydd. Roeddem i gyd dros ein hwythdegau erbyn hyn. Cafodd Nellie ei chladdu gyntaf ac ychydig dros flwyddyn wedyn aeth Marian at ei chreawdwr.

Roedd Nellie wedi codi tŷ ar dir Simdda Wen a deuthum i gytundeb a'i phlant i'w brynu. Nid ydyw wedi bod yn hawdd ond rwyf yn ôl yn nefoedd fy nychymyg yng nghanol y pentref yn edrych o ffenestr y tŷ ar y man lle'r gorwedd gweddillion Marian a Nellie a hefyd ar fedd fy Anti Lizzy. Edrychaf hefyd ar ein hen gartref yn 2 Chapel Street. Ac o ffenest arall edrychaf ar olygfa bendigedig dros y caeau at y môr a Mynydd Twr, Caergybi, lle y magwyd Marian.

Mae'r derbyniad 'adra' wedi bod yn dwymgalon - a diolchgar a bodlon rwyf.

Cofion cynhesaf at fy holl ffrindiau a deuwch ataf am dro.

***John Lyons***

---

## GWAHODDIAD ARBENNIG

Cyfrol arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2022

### *CYFLWYNO TREGARON A'R CYFFINIAU DDOE A HEDDIW*

Gwahoddiad i chwi ffrindiau i ymateb erbyn **10 Mai 2022** i'r cyfle o gael copi clawr caled, neu gopi clawr meddal, O'r gyfrol yn cyflwyno Tregaron a'r pentrefi o gwmpas (Llanddewi Brefi, Llanfair Clydogau, Cellan, Llangybi, Llanio, Llangeithio, Bwlch-llan, Abermeurig, Penuwch, Blaenpennal, Blaenafon, Mynydd Bach, Berth, Bronant, Lledrod, Llanilar, Swyddffynnon, Caradog, Pontrhydfendigaid, Ffair Rhos, Ysbyty Ystwyth, Pontrhydygroes, Cwmystwyth) i bobl leol a phobl a ddaw i'r Eisteddfod a hefyd caredigion ein diwylliant. Yr awdur yw un o blant y fro, y Parchedig Ddr D. Ben Rees (brodor o Landdewi Brefi).

Gwahoddir chwi i gyfrannu £50.00 i dderbyn copi clawr caled o'r gyfrol unigryw hon; neu £30.00 ar gyfer derbyn copi clawr meddal. A wnewch chwi nodi eich dymuniad am y gyfrol gan y caiff ei llofnodi a'i chyflwyno mewn seremoni arbennig yn Siop Rhiannon, Tregaron. Mi fydd eich enw yn cael ei nodi yn rhestr y Tanysgrifwyr. Bydd hi'n gyfrol hardd o Wasg Y Lolfa.

Gyda diolch a chymeradwyaeth yr awdur D. Ben Rees
garthdriveben.@gmail.com

## Ymateb

Enw . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**A.** Archeb am y Gyfrol Clawr Caled
Nifer ..........
Rhodd o £ ...............

**B.** Archeb am y Gyfrol Clawr Meddal
Nifer ..........
Rhodd o £ ...............

Anfoner y swm priodol trwy siec, neu arian rhydd, mor fuan ag y bo modd i:-

Dr D. Ben Rees
32 Garth Drive,
Allerton,
Liverpool/Lerpwl,
L18 6HW.

# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## Y CYNULLEIDFAOEDD

### gan y Parchedig Eleri Edwards



*Gweithgarwch y Clwb Cŵl Altrincham Mrs Helen Havard-Griffiths a phlant a rhieni yn brysur (2015?)*

Wrth ddarllen yr hanes a chofio'r adroddiadau niferus sydd gennym, cefais gipolwg ar amrywiaeth a chyffro'r gweithgareddau heb sôn am werthfawrogiad o weinidogaeth y Gair. Darllenais am y cenhadon a ddechreuodd eu gyrfa o Fanceinion. Yn 1928, meddai gweinidog capel Victoria Park, y Parch W.J. Jones yn ei adroddiad i'r blwyddlyfr, *'...O gylch y bobl ieuainc daeth yr anrhydedd uchaf i'n heglwysi y flwyddyn hon, oblegid o'r cylch hwn yr ymadawodd Miss Lucy A. Murray i gyflwyno ei hun yn genhades i'r meysydd tramor'*. Roedd Lucy yn fodryb i un o'n ffyddloniaid hynaf yng Nghapel Noddfa Oaker Avenue, Didsbury heddiw yn 2022 sef Mrs Gwenda Watson, ac yn drist iawn bu Lucy farw 15 mis wedi iddi fynd allan i'r India. Ymhellach ymlaen yn yr ugeinfed ganrif aeth Gwenda a'i gŵr Vic allan yn genhadon i Panama gyda'r Methodistiaid Saesneg.


Yn 1936 dywed Hanes yr Achos *'Pery gwaith y Genhadaeth Dramor mewn bri mawr a chaiff gefnogaeth galonnog. I'r chwiorydd yn bennaf mae'r clod am waith yr adran hon...am fod eu calon yn yr ymdrech y mae eu cyfraniad yn sylweddol ac yn ennyn ein hedmygedd...'* Dwy genhades oedd yn y maes o 'Henaduriaeth Manchester' ar y pryd, Nyrs Winifred A. Thomas a Nyrs Doris B. Jones. Yn ei hatgofion o'i phrofiad yng nghapel Pendleton yn y *Christian Endeavour*, math o glwb i'r bobl ifainc, dywedodd y ddiweddar Mrs Olwen Owen: *'Byddem yn cael cyfarfod gweddi cenhadol ac yn aml roedd gennym lythyr gan ein cenhades Miss Winnie Thomas i'w ddarllen yn y cyfarfod'*.

Yn 1950 roedd llanc o'r enw Arthur Meirion Roberts yn mynychu capel Pendleton ac ysgrifennodd ei atgofion yn 2009: *'Mawr yw fy nyled i'r Ysgol Sul a'r Athrawon, ... i'r Christian Endeavour yn arbennig ... bwrlwm y cyfarfodydd ... i'r ffaith mai Eglwys Genhadol ei natur oedd Pendleton...'*. Un o arloeswy Eglwys Bresbyteraidd Cymru oedd Arthur Meirion am ei fod yn genhadwr yn ein gwlad ni flynyddoedd wedyn *'Braint oedd i mi gael gweithio i Fwrdd y Genhadaeth fel caplan Diwydiant am 12 mlynedd ac ymhen amser fod yn Llywydd y Bwrdd ...'*. Mae Arthur Meirion yn ei nawdegau erbyn heddiw ac yntau a Morfudd ei wraig yn byw yng Nghymru.

Darllenais am weithgaredd brwdfrydig capel Altrincham yn yr wythdegau i godi arian at yr Achos trwy drefnu *'Antiques Event'* mewn gwesty mawr yn Altrincham ac yna mewn ffair yn Sir Fôn lle casglwyd £8000 tuag at adnewyddu to'r capel. Y gweinidog yn y nawdegau hyd at 1997 oedd y Parch Geraint Roberts gŵr cymwynasgar a gweithgar ac ef weithiau oedd 'chauffeur' y bws a logid at deithiau'r Ofalaeth. Clywais am lawer i antur! Felly hefyd yn y blynyddoedd dilynol yng nghapel newydd Oaker Avenue yn y chwedegau, y dramâu a'r Eisteddfodau llawn hwyl a sbri a gynhelid yno ar ôl iddynt symud o'r hen Gapel oedd yn agosach at y ddinas yn Moss Side. Dim ond yn ddiweddar iawn yr ataliwyd cynnal cyngerdd mawr Gŵyl Ddewi yn y *'Royal Northern College Of Music'*.

Rhaid cofio am ymdrechion y capeli at gynnal Ysgol Sul dros y blynyddoedd a ffurfiwyd y Clwb Cŵl misol yn Altrincham – Ysgol Sul ar wedd newydd dan arweiniad Mrs Helen Havard-Griffiths a oedd yn annog plant a'u rhieni i rannu awyrgylch Gymraeg y capel a dysgu am y ffydd Gristnogol – Roedd y plant gydag un rhiant yn Gymro a'r llall yn Sais, felly nid oedd y gweithgareddau yn Gymraeg ac nid oedd y rhieni yn ymuno â'r addoliad yn y capel, ond roedd pawb yn mwynhau eu hunain hyd nes i'r plant dyfu i fyny a'r Clwb Cŵl ddod i ben.

Mae un o'r rhieni ifainc hyn, sydd yn dal i fod yn aelod o'r capel, wedi cymryd drosodd oddi wrth Mrs Glenys Roberts i ofalu am elusen hir-sefydlog i gynnal



*Trip y capeli i gartref Hedd Wyn 'yr Ysgwrn' yn ddiweddar*

cymorth i'r tlodion yn y ddinas drwy gasglu arian a'i yrru at y grŵp penodedig. Mae ymestyn allan at y gymdeithas neu gyd-weithio gydag eglwysi eraill yn fwy anodd i gapel dros y ffin oherwydd yr iaith ond mae ymdrechion wedi bod ar hyd y blynyddoedd, gyda chyfnewid pulpudau a gwaith cefnogi elusennau neu achosion lleol– cyfrannu at hospis neu ysbyty lleol er engraifft.

Mae cinio Gŵyl Ddewi yn dal i gymryd lle bob blwyddyn, gyda gŵr neu wraig wadd; pregeth Gŵyl Ddewi a'r Gymdeithas Lên a Chân yn dod ag amrywiaeth inni. Roedd tripiau a theithiau pell ac agos yn fendith i bawb yn y dyddiau a fu ac aethom i weld Canolfan Mari Jones yn y Bala a chartref Hedd Wyn ychydig o flynyddoedd yn ôl. Ie mae pererinion y capeli dros y ffin yn ennyn edmygedd a chlod am eu gweithgarwch a'u croeso i eraill sydd yn dod i'r ddinas. Mawr yw ein llawenydd i weld rhai ifainc yn ymuno â ni ond yn aml, myfyrwyr ydynt sydd yn symud ymlaen at y cam nesaf yn eu gyrfa. Dyna natur Eglwys mewn dinas fawr dros y ffin.

Diolch i Dduw am y cnewyllyn o bobl ffyddlon ac ymroddedig sydd wedi sicrhau y dystiolaeth dros y blynyddoedd ac sy'n ffyddiog i ddyfalbarhau. Dyna'r rheswm pam mae bod yn hyblyg a derbyn newid yn anhepgorol. Yn 2009 bu newid mawr pan ddaeth Henaduriaeth newydd i fod, Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn cynnwys Wrecsam, Fflint, Lerpwl a Manceinion. Yna yn 2021 crewyd Gofalaeth newydd yn cynnwys pump Eglwys sef: Lerpwl (Bethel a Waterloo), Penbedw, a Manceinion (Altrincham a Noddfa Oaker Avenue) Gofalaeth Gororau'r Gogledd. Dyna pam mae cael gweinidog eto yn fendith arbennig i gapeli Manceinion, achos llawenydd a gobaith ac adnewyddiad at y dyfodol i bobl ffyddlon yr Eglwysi hyn. Dymunwn bob bendith a nerth i'r Parch Robert Parry wrth iddo drefnu ei waith a gorffen ei flwyddyn gyntaf o weinidogaeth yn ein plith.

# TARO POST AC E-BOST

### *MYND I'R PICTIWRS*

Diolch yn fawr i Brian Thomas am ddyfyniad diddorol arall o'i hunangofiant. Er nad ydwyf, ac erioed wedi bod, yn rhywun sy'n mynd i'r sinema yn gyson, er enghraifft dwi erioed wedi gweld ffilm 'James Bond' , mae gen i atgofion o fynd i'r pictiwrs.

Wrth gael fy magu yn Lerpwl, yr atgof cyntaf sydd gennyf yw cael fy nhywys gan fy nhad, pan oeddwn tua chwech oed, i'r 'Tatler News Theatre', sinema cartŵn yn Church Street yng nghanol y ddinas.

O ran gweld ffilmiau dwi'n cofio cael parti bob Nadolig yn festri Capel Heathfield Road gyda ffilmiau'n cael eu dangos, ar ôl i ni fwyta, trwy garedigrwydd y 'Gas Board' oedd yn cyflenwi'r ffilmiau, taflunydd a sgrin fawr. Ffilmiau addysgiadol oeddynt yn bennaf er enghraifft am fyd natur.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn ysgol gynradd Dovedale roeddwn yn gyfrifol, yn ystod yr awr ginio, am baratoi'r taflunydd sinema, y ffilmiau, ar sgrin yn barod ar gyfer y prynhawn.

Roeddwn i'n mynd i'r sinema yn rheolaidd pan oeddwn rhwng saith a deg oed. Roedd hyn i'r 'Clwb Sinema' ar fore Sadwrn yn y 'Gaumont' ym mhen draw Allerton Rd, ar gornel Garthdale Rd, lle gellir dod o hyd i 'Any Time Fitness' nawr. Roedd hon yn sinema grand iawn, wedi ei haddurno yn yr arddull 'Art Deco'. Roedd cyntedd y fynedfa yn drawiadol gyda basn mawr, wedi'i leinio â mosaig glas a hwnnw wedi'i lenwi â



dŵr ac yn cynwys ffynnon ganolog gyda phedestal a cherflunwaith. Yn ogystal roedd yna phwll 'pysgod aur'.

Roedd yna organ Wurlitzer hefyd a oedd wedi'i gosod yn flaenorol yn y London Palladium. Nid wyf yn gwybod beth oedd barn pobl Allerton Road pan fyddai criw o blant, ar ddydd Sadwrn, yn rhedeg ar hyd y ffordd, gan weiddi a sgrechian, wrth iddynt actio eu rolau o'r ffilmiau yr oeddent wedi'u gweld y bore hwnnw.


Mae gen i atgofion eraill o fynd i'r pictiwrs gan gynnwys pan oeddwn yn dair ar ddeg yn cael gweld ffilm y Beatles 'Help' cyn y premier brenhinol. Roedd o yn sinema'r 'Regal' yn Douglas, Ynys Manaw. Roeddwn i yno ar wyliau a dangosodd y sinema berfformiad matinee ar yr un diwrnod y cynhaliwyd y premier yn Llundain fin nos. Mae amseriad y ffilm yn fy atgoffa o linell o gan gan Triawd Y Coleg "Ma' tŷ ni am fynd i'r Matinee yn Hen Bictiwrs Bach Y Borth", un o'r enghreifftiau gorau o chware ar eiriau mewn unrhyw gân.

Mynd i sinema'r 'Abbey' yn Wavertree, yn bedair ar ddeg oed, i weld 'Grand Prix' y tro cyntaf, a'r unig dro, i mi wylio ffilm yn 'Cinerama', ffilm wedi'i thaf-lunio gan dri thaflunydd, ochr yn ochr, ar sgrin grom. Yn yr un flwyddyn ces i fy nghludo o Trethomas ger Gaerffili, lle roeddwn i'n aros gyda pherthnasau, i sinema'r 'Capitol' yng Nghaerdydd i weld 'The Sound of Music'.

Yn ddiweddar, trwy wylio'r ffilm 'Save The Cinema', fe wnes i ailgynnau atgofion o fynd i sinema'r 'Lyric' yng Nghaerfyrddin, yn ystod fy nghyfnod yng Ngholeg y Drindod'.

*Cofion cynnes,*
*David Williams (Karslake).*

# CORNEL Y TRYSORYDD



## Mai 2022

| | |
|---|---|
| Mr David Williams, Biggleswade | £61.00 |
| Dienw, Llansannan | £50.00 |
| Mr a Mrs Eryl Edwards, Llanuwchllyn | £10.00 |
| Parch. Dr. D. Ben Rees a Mrs Meinwen Rees, Lerpwl | £100.00 |
| Mr Dafydd Rees, West Hampstead | £25.00 |
| Y Barnwr Hefin a Dr Bethan Rees, Harpenden | £25.00 |
| Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws | £15.00 |
| **Cyfanswm** | **£286.00** |

**Diolch**
**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Trafod Rhaglen Deledu S4C*

# Dadansoddi y Parchedig Emyr Ddrwg

**gan Bleddyn James**

Rhaglen S4C a barodd cryn lawer o drafod yn ein plith yn Lerpwl oedd yr hyn a ddangoswyd ar Nos Fercher, 2 Chwefror 2022 am y Parchedig Emyr Owen, un a fu yn weinidog yn Ne Lerpwl am nifer o flynyddoedd. Gwn fod y rhaglen wedi cymeryd blynyddoedd i'w baratoi, a dyma'r ail raglen arno yn Gymraeg. Vaughan Hughes oedd yn ei holi yn y rhaglen gyntaf, rhaglen a gafodd ei chyhuddo yn faleisus gan John Sam Jones o fod yn erbyn pobl hoyw sydd yn gyhuddiad cwbl annheg.

Mae'n debyg o bob un a gymerodd ran yn y rhaglen 2022 mai D. Ben Rees oedd yn ei adnabod bron yn hirach na neb arall, ar wahân i bobl Stiniog oedd yn methu credu iddo fynd i'r pulpud erioed. Cofia'r Golygydd ei ddyfodiad o'r Coleg Diwinyddol yn Weinidog yng nghapeli cefn gwlad Ceredigion, Llangybi, Llwyngroes ac Abermeurig, a chofia ei weld yng Nghofentri, a chyd weithio ag ef yn Lerpwl. A lwyddodd y rhaglen i gyflwyno i ni yr Emyr Da a'r Emyr Drwg, pennawd o'i eiddo ef ei hun? A'r ateb ydyw, Na, a rheswm am ddweud hynny ydyw iddo gael ei amddiffyn yn ormodol. Un o gafodd gam gan eraill ydoedd. Gosodwyd y bai ar arall ond ef ei hun.

Clywsom o enau gwraig sydd yn gwarchod archif Emyr Owen amddiffyniad ohono, ac yr oedd y seicratyddion a glywsom bron i gyd yn lladd ar ei Galfiniaeth heb sylweddoli nad oedd Emyr yn Galfinydd o gwbl. Dawn siarad oedd ei ddawn ef ac nid diwinyddiaeth gyda digon o hyder i ddarlithio ar bynciau nad oedd ef yn gwybod y nesaf peth i ddim amdanynt. Yn y cyfweliadau a gafodd D. Ben Rees adroddodd un stori na chafodd ei gyflwyno yn gywir yn y rhaglen. Y stori am ei ymddygiad ef ag Emrys pan wahoddwyd hwy i swper ar ôl darlith yn Garston a'r iaith amrwd anghristnogol a ddefnyddiai'r ddau wrth y bwrdd bwyd. Dywedwyd hyn gan fam a'i merch ar ôl iddo adael. Gwyddai ef na feiddiai y ddwy ddweud wrth neb yr hyn a ddeuai allan o'i enau ef a'i bartner hoyw. Anfonodd ugeiniau lawer o lythyron di-enw. Derbyniodd R. Maurice Williams a D. Ben Rees a weinidogaethau gydag ef yn Lerpwl, ond ni dderbyniodd yr un ohonynt ymddiheuriad am y llythyron hynny.

Gwendid pennaf y rhaglen oedd na chafodd teuluoedd y bobl y cyflawnodd ef y weithred ysgeler ar gyrff ei anwyliaid ddim byd o ofod i fynegi ei gofid a'i siomedigaeth. Ni chawsom gefndir sut y llwyddodd. Pe bai wedi aros yn Lerpwl ni fyddai yr un cyfle ganddo ond yn ei gyfnod ef ym Meirionnydd byddai aml i goffin yn cael ei osod yn sêt fawr y capel cyn yr arwyl y dydd trannoeth. Gwelodd ei gyfle. Cyflawnodd weithredoedd sydd yn gofyn yr edifeirwch mwyaf. Ni chawsom hynny. Dyn yn dyheu am gyhoedduarwydd ydoedd. Pan aeth Dr. Ben Rees i'w weld ef yng ngharchar Risley y cwestiwn cyntaf a ofynnodd iddo oedd "Beth mae'r wasg yn ei ddweud amdana?" Dywedodd wrtho ei fod ef ar dudalen flaen y *Daily Post*. Roedd wrth ei fodd. Bu yn edrych ymlaen o'r foment y cafodd ei ordeinio i fod ar dudalen flaen y Post ac o'r diwedd dyma fo wedi cael ei ddymuniad mawr. Gwelwyd aml i ddarlun anghywir yn y ffilm, er fod y cynhyrchwyr yn gwybod yn well.



***Y Parchedig Emyr 'Ddrwg'***

Dywedodd Dr Rees i'r enwad ofyn iddo fynd i Lancaster i'w groesawu allan. Golygai cyrraedd y carchar erbyn wyth o'r gloch a mynd ag ef i dŷ gerllaw lle y llogwyd ystafell ar eu cyfer nes y byddai Emrys yn cyrraedd am 9.30. Yn yr amser honno cafodd Dr Rees ei ddychryn o'i glywed yn dweud ei fod ef am ddarlithio ar ei brofiad yn y carchar. O leiaf darbwyllodd ef i beidio meddwl am hynny gan fod pobl wedi cael cymaint o siom ynddo. Wedi'r cyfan roedd wedi bychanu ei swydd fel gweinidog yr Efengyl, wedi siomi cymaint ohonynt oedd o ddirif yn y gwaith ac yn fawr obeithio na fyddai byth wedyn yn esgyn i bulpud mewn unrhyw Gapel.

Ar ôl hir drafodaeth addawodd y byddai'n gwrando am unwaith. Nid oes tystiolaeth iddo anwybyddu y cyngor crefyddol, meddygol, cyfreithiol. Ond gwyddai aml un o brofiad ei fod ef yn greadur cas, llym ei dafod, yn llawn atgasedd, dicter ohono ef ei hun, ac yn giamstar am dwyllo yr awdurdodau. Gwnaeth John Sam Jones, un arall y bu yn Gaplan yn Lerpwl ei orau glas i'w amddiffyn a rhoddi'r bai ar y gyfundrefn grefyddol a Chalfiniaeth. Ni chawsom ganddo ef fod Emyr yn ôl ei gyfaddefiad ei hun wedi cael amser da o dan glo yn y carchar.

Rhoddwyd iddo swydd yn llyfrgellydd y carchar, gwaith yn ei siwtio i'r dim. Mae'n amlwg fod deunydd ffilm ym mywyd cythryblus Emyr Owen. Byddai yn plesio Holywood. Yr adeg honno nid amddiffyniad o ddyn hoyw sydd ei angen ond portread o ŵr oedd yn chwilio am sylw nad oedd pulpud yr Eglwys Bresbyteraidd yn medru ei roddi iddo. Erbyn ei gyfnod ef yr oedd y capeli er yn llewyrchus i gymharu a'r oes hon ddim mor bwerus ag yr oeddynt yn ei blentyndod ef ym Mlaenau Ffestiniog yn niwedd y dau ddegau.

Y sylw mwyaf allweddol y rhaglen oedd y gŵr o Ffestiniog a ddywedodd ei bod fel cymuned wedi ei rhyfeddu fod Emyr, babi mam, wedi cael ei dderbyn i'r Weinidogaeth o gwbl. Roeddent hwy yn ei adnabod ef yn well na'r rhelyw ohonom. Dyna'r gwir. Camgymeriad mawr oedd i Ddosbarth Ffestiniog ei gefnogi ar y llwybr y gwnaeth ef ei anharddu, a dod atom o Lerpwl cyn gadael am Beddgelert ac yna Tywyn. Ac yn rhyfedd iawn un o'r ddau a fu yn ei holi am ei gymhellion oedd gweinidog Tanygrisiau, y Parchedig R. Maurice Williams. Cyfaddefodd wrth nifer ohonom yn Lerpwl iddo deimlo yn annifyr o'i adael drwodd ond ni allai roddi ei fys ar wendid yr ymgeisydd.

Gweld yr Emyr Dda wnaeth ef a chymaint o bobl eraill yr adeg honno ond yn y cysgodion, cysgodai a llechai Emyr Ddrwg y cyn chwarelwr oedd am adael ei gynefin i fod yn weinidog ordeiniedig Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dyma mae'n debyg y ffilm fwyaf pwerus a welwyd ar S4C ers dechrau cyfnod y Cofid-19, ac o leiaf cefais gyfle i'w gosod yn y glorian yn *Yr Angor.*

---

Dymunir yn dda i'n Bugail am ei ddyrchafu i Gadair Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain am 2022 i 2024. Edrychwn ymlaen i'w lywyddiaeth ddoeth.


CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan*
*Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn,*
*Llanuwchllyn LL23 7UH*
*07729 960484*
*aerontynycefn@gmail.com*

# Gwledd o ganu corawl cyfoes gan Gôr Cymry Lerpwl

***gan R. Ifor Griffith***




Roedd Neuadd Fawr Prifysgol Hope Lerpwl yn Shaw Street dan ei sang ar Sadwrn 12fed o Fawrth. Y noson honno roedd Côr Cymry Lerpwl yn cyflwyno ei trydydd cyngerdd o'r tymor 2021-2022. Cyflwynwyd rhaglen o gerddoriaeth gyfoes a heriol gan y Côr a'r cerddorion. Cyflwynwyd y cyngerdd, i bobl Wcráin, gyda gwesteion sef y Parchedig Ddr. Taras Khomych, ei deulu ac aelodau o Eglwys Sant Sebastian, Fairfield ble mae cymuned fawr o bobl o Wcrain.

Dechreuwyd y noson gyda gwaith corawl gan y cyfansoddwr George Shearing sef trefniant cerddorol o Ganeuon a Sonedau, William Shakespeare. Cafwyd perfformiad effeithiol a cherddorol gan y côr, yr unawdydd Hilary Cronin ac hefyd cyfeiliant Stephen Hargreaves (piano) a Steve Berry (double-bass).

Yna cafwyd perfformiad graenus o waith George Gershin "Thee Preludes" gan Emily Burkhardt (saxaphone) a Stephen Hargreaves (piano). Daeth y rhan gyntaf i ben gyda Hilary Cronin yn canu pum cân gan gyfansoddwyr fel Cole Porter, Jerome Kern a George Gershwin! Cawsom ganu hyfryd a chlodwiw gan y soprano ac roedd cyfeiliant Stephen Hargreaves ar y piano yn hynod effeithiol. Cafodd y perfformiad yma gymeradwyaeth gref.

Ar ddechrau'r ail hanner y cyngerdd clywsom yr Anthem Genedlaethol Wcrain yn cael ei chwarae ar y piano, gyda arddeliad, gan Stephen Hargreaves.

Perfformiwyd "Mass in Blue" gan y pianydd a'r cyfansoddwr Will Todd wedyn. Yn ôl y cyfansoddwr cymysgedd yw'r gwaith o effaith canu corawl cysegredig fel yr Offeren ac effaith "jazz". Cafwyd grŵp jazz gyda Stephen Hargreaves (piano) fel cyfeiliant i'r Côr a'r unawdydd Hilary Cronin.

Menter heriol i'r côr oedd cyflwyno'r gwaith cyfoes hwn ond o'r nodyn cyntaf i'r diweddglo effeithiol cafwyd perfformiad hynod, meistrolgar a syfrdanol.

Rhaid rhoi clod a llogyfarchiadau i'r Côr a'r cerddorion am ddatganiad trawiadol a phroffesiynnol.

Mae Côr Cymry Lerpwl yn hynod ffodus o gael cerddorion fel Keith Orell (arweinydd) a Stephen Hargreaves (cyfeilydd) wrth y llyw. Teyrnged iddynt ei dau oedd perfformiad meistrolgar o "Mass in Blue" gan y Côr.

Ar ddiwedd y perfformiad cododd y gynulleidfa fel un ar eu traed i gymeradwyo ymdrech wych bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd.

**Casglwyd £1800 tuag at Apêl yr argyfwng Wcrain.**



*Y Parch. Ddr. Taras Khomych a Keith Orrell, arweinydd y Côr*



*Hilary Cronin, soprano arbennig*



*Emily Burkhardt a'i saxaphone*